**Briff: Datblygu modiwl hyfforddi dwyieithog ar-lein ar gofnodi Rhywogaethau Estron Goresgynnol, a chyflwyno sesiynau hyfforddi ymarferol cysylltiedig i o leiaf 100 o bobl ar ran Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE**

**<u>Trosolwg o'r Prosiect</u>**

*Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE*

Mae'r prosiect 9 mlynedd hwn yn cael ei ariannu'n bennaf gan y Comisiwn Ewropeaidd trwy eu rhaglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE, a Llywodraeth Cymru. Mae Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn dwyn ynghyd llu o bartneriaid sy'n rhannu awydd i amddiffyn ac adfer coedwigoedd glaw tymherus mawreddog Cymru. Gan ganolbwyntio ar bum Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA), mae'r prosiect Cymru gyfan hwn, yn ceisio sicrhau dyfodol hirdymor y cynefinoedd hyn sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol trwy ymgymryd â llu o ymyriadau ymarferol sy'n seiliedig ar gadwraeth, megis cael gwared ar Rywogaethau Estron Goresgynnol, Pori Cadwraethol ac Adfer Coetiroedd Hynafol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a mwynhad o'r coetiroedd ymhlith rhanddeiliaid. Yn rhedeg tan fis Gorffennaf 2027, mae partneriaid y prosiect yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE - partner arweiniol), RSPB Cymru, Coed Cadw / The Woodland Trust in Wales, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales a Dŵr Cymru / Welsh Water.

**<u>Gwybodaeth Gefndirol</u>**

*Rhywogaethau Estron Ymledol (RhEY) / Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG)*

Nod Rheoliad yr UE (a gadwyd yng nghyfraith y DU yn dilyn Brexit) ar Rywogaethau Estron Ymledol (RhEY); yn benodol Rheoliad (EU) Rhif 1143/2014; yw atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron ymledol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rheoliad hwn yn canolbwyntio ar leihau effeithiau andwyol RhEY ar fioamrywiaeth, ecosystemau, a'r economi: Mae RhEY yn costio bron i £1.9 biliwn mewn costau uniongyrchol y flwyddyn i economi Prydain.

**<u>Rheswm dros y Tendr</u>**

Un o brif amcanion Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yw gwaredu Rhywogaethau Estron Ymledol o fewn pum Ardal Cadwraeth Arbennig darged (Eryri, Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd, Coetiroedd Cwm Elan a Coed Cwm Doethie – Mynydd Mallaen), a pharthau byffer cyfagos. Y prif blanhigyn RhEY a dargedir gennym yw *Rhododendron ponticum* (Rp), ond mae hefyd yn cynnwys Jac y Neidiwr *Impatiens glandulifera*, Clymog Siapan *Reynoutria japonica*, bresych ffwrn Americanaidd *Lysichiton americanus*, a montbretia cyffredin *Crocosmia* × *crocosmiiflora*.

Ar ôl gweithio ar ddileu rhywogaethau estron ymledol ers dechrau'r prosiect ym mis Awst 2018, un o amcanion y prosiect (C3) yw "sefydlu a gweithredu mecanweithiau i sicrhau bod y cynefinoedd targed a'r ardaloedd byffer yn cael eu cynnal yn rhydd o *Rododendron ponticum* [ac RhEY eraill] yn y tymor hir". Bydd hyn yn nodwedd allweddol o'r gynllun 'After-LIFE' a etifeddiaeth  y prosiect, gan sicrhau banc o wirfoddolwyr yn amddiffyn y cynefinoedd hyn trwy adrodd yn gyflym am rywogaethau ymledol yn ail sefydlu.

**Cwmpas y Gwaith**

Mae APCE yn dymuno penodi unigolyn neu gonsortiwm (y Contractwr) ar ran Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE i:

I. gyflawni ar y gwaith o greu adnodd hyfforddi dwyieithog ar-lein ar Adrodd ar Rywogaethau Estron Ymledol.
II. cyflwyno sesiynau hyfforddi ymarferol i o leiaf 100 o bobl mewn ardaloedd prosiect wedi'u targedu yn seiliedig ar yr adnodd hyfforddi Adrodd ar Rywogaethau Estron Ymledol.
III. casglu adborth gan gyfranogwyr ar-lein a mynychwyr yr hyfforddiant Adrodd ar Rywogaethau Estron Ymledol, coladu a chyflwyno canfyddiadau mewn adroddiad byr.

At ddibenion y comisiwn hwn, APCE fydd y Cleient.

**Gofynion Penodol**

***Adnodd Hyfforddiant Adrodd ar Rywogaethau Estron Ymledol Dwyieithog***

Bydd y Contractwr yn gyfrifol am ddatblygu adnodd hyfforddi cynhwysfawr ar adnabod ac adrodd Rhywogaethau Estron Ymledol (RhEY), gan sicrhau ei fod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid i'r adnodd ymgorffori'r defnydd o wefan a/neu ap y Mapiwr Rhywogaethau Estron Ymledol fel offeryn adrodd canolog. Dylai'r adnodd fod yn gydnaws â strwythur a chanllawiau rhaglen Llysgennad Eryri / Eryri Ambassador gan ei alluogi i weithredu fel modiwl annibynnol o fewn y cynllun. Rhaid i'r cynnyrch terfynol fod ar gael mewn fformatau digidol a pharod i'w hargraffu a chynnwys nodiadau hyfforddi i gefnogi'r ddarpariaeth mewn sesiynau dysgu wyneb yn wyneb neu gymysg.

***Recriwtio a Hyfforddi Gwirfoddolwyr***

Gan adeiladu ar yr adnodd hyfforddi, byddai'r Contractwr yn gyfrifol am arwain ar recriwtio a hyfforddi 100 o wirfoddolwyr i gofnodi Rhywogaethau Estron Ymledol, gan sicrhau ei fod ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. O gyfanswm y sesiynau hyfforddi, dylid cyflwyno o leiaf 50% yn y maes a dyla o leiaf 50% o'r holl gyfranogwyr fynychu sesiynau wyneb yn wyneb. Gall sesiynau recriwtio a hyfforddi fod yn gyfuniad o sesiynau dan do (wyneb yn wyneb a/neu ddosbarthiadau ar-lein), a sesiynau maes (neu gyfuniad o'r ddau).

Gallai'r gwirfoddolwyr hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) randdeiliaid y prosiect, staff o asiantaethau statudol, gweithwyr proffesiynol o sectorau perthnasol, cyrff anllywodraethol, grwpiau gwirfoddol lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dylai'r sesiynau ymgysylltu rhanddeiliaid o fewn y 13 cymuned darged o *Borthmadog, Beddgelert, Blaenau Ffestiniog, Maentwrog, Penrhyndeudraeth, Dolgellau, Abermaw, Harlech, Ffwrnais, Eglwysfach, Machynlleth, Llanymddyfri a Rhaeadr.*

Gellir cynnal ymweliadau maes ar safleoedd sy'n eiddo i bartneriaid y prosiect e.e. Coed Cadw / The Woodland Trust, RSPB Cymru, APCE, neu ar safleoedd preifat ar yr amod bod caniatâd y tirfeddiannwr yn cael ei sicrhau. Ar safleoedd preifat, disgwylir i'r Cleient arwain ar gael yr holl ganiatâd perthnasol gan dirfeddianwyr. Bydd aelod[au] o staff Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE ar gael i gefnogi'r ymgeisydd i gyflwyno sesiynau hyfforddi wyneb-yn-wyneb.

*__Adroddiad Adborth__*

Disgwylir i'r Contractwr gasglu a choladu adborth o sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr gan ddefnyddio dull priodol e.e. SurveyMonkey, arolygon papur mewn sesiynau, negeseuon e-bost ac apiau. Bydd gwybodaeth am adborth, ac ystadegau o ran nifer y sesiynau a ddarparwyd a'r gwirfoddolwyr â recriwtiwyd yn cael eu darparu i'r Uwch Reolwr Prosiect ar ddiwedd y contract hwn. Gellir trafod a chytuno ar fformat cyflwyno ystadegau gyda'r Uwch Reolwr Prosiect yn dilyn dyfarnu'r contract - fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd hyn ar ffurf:

- Adroddiad cryno ysgrifenedig o'r gwaith
- Taenlen Microsoft Excel yn amlinellu nifer y bobl a gafodd eu recriwtio a'u hyfforddi
- Coladu'r adborth a ddarparwyd
- Ffotograffau o'r digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd

__Ystyriaethau__

Rhaid cyflwyno'r holl adnoddau hyfforddi, sesiynau a deunyddiau ysgrifenedig yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnwys ar-lein, adnoddau wedi'u hargraffu, cyflwyniadau a gweithgareddau ar y safle. Dylid cynnwys unrhyw ffioedd cyfieithu yn y dyfynbris a ddarperir.

Disgwylir i'r Contractwr gynnal yr holl Asesiadau Risg angenrheidiol sy'n gysylltiedig â gwaith maes, gan gynnwys ymweliadau cyn y sesiwn, oni bai y cytunir fel arall gydag Uwch Reolwr Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE. Gall y Cleient ddarparu templedi Asesiad Risg i'r ymgeisydd llwyddiannus os oes angen. Rhaid i'r Contractwr ddarparu prawf eu bod nhw (neu staff perthnasol eraill) wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf, gan gynnwys +F. Hefyd, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu prawf o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, a phan fyddant yn cyflogi eraill, Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr, y ddau am o leiaf £5,000,000.00.

Dylai'r Contractwr drefnu unrhyw gludiant sydd ei angen i fynd â gwirfoddolwyr i / o safleoedd [os yr angen], gyda chostau cysylltiedig wedi'u cynnwys yn dyfynbris y tendr hwn. Yn ogystal, rydym yn annog ymgeiswyr i gynnwys digon o arian yn eu cais i dalu'r holl gostau orbenion a allai godi, h.y. argraffu adnoddau, lluniaeth, llogi lleoliadau, llety ac ati, yn ogystal ag arian i dalu cost prynu unrhyw ddeunyddiau a allai fod yn ofynnol wrth gyflwyno'r sesiynau hyfforddi.

Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr holl ddata personol (gan gynnwys lluniau) a gesglir fel rhan o'r comisiwn hwn yn cael ei drin yn unol â GDPR, a dylid tynnu pob llun a dynnir yn ystod sesiynau hyfforddi gyda chaniatâd y cyfranogwr. Bydd perchnogaeth yr holl ddeunyddiau a data a gesglir yn nwylo'r Cleient.

Bydd y Cleient yn darparu'r logos a'r gofynion brandio perthnasol i'r ymgeisydd llwyddiannus i'w defnyddio mewn adnoddau. Bydd y Cleient yn gweithio gyda'r Contractwr i sicrhau bod y fformat ar-lein cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer porth cynllun Llysgennad Eryri / Eryri Ambassador.

## **Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano a'r Matrics Sgorio**

Rhaid i'r ymgeiswyr allu darparu neu ddangos y canlynol y bydd ceisiadau'n cael eu sgorio arnynt:

| | |
|---|---|
| Ffi arfaethedig | 30 % |
| Y gallu i ddangos profiad blaenorol o recriwtio gwirfoddolwyr a chyflwyno sesiynau hyfforddi gwirfoddolwyr mewn perthynas ag RhEY, neu bynciau perthnasol eraill sy'n seiliedig ar yr amgylchedd | 20 % |
| Y gallu i ddangos profiad blaenorol o gynhyrchu deunydd ysgrifenedig ar RhEG, neu bynciau perthnasol eraill sy'n seiliedig ar yr amgylchedd | 20 % |
| Y gallu i ddangos prosiectau a / neu becynnau gwaith wedi'u cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb | 15% |
| Dangos eu gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg | 10 % |
| Cyfeiriadau ysgrifenedig | 5 % |
| **Cyfanswm** | **100 %** |

***Byddwn yn sgorio ceisiadau ar draws nifer o feini prawf, fel yr amlinellir yn y matrics sgorio, sy'n anelu at asesu'r gwerth am arian cyffredinol mewn perthynas ag ansawdd a'r gallu cyflawni.***

## **Amserlen**

| | |
|---|---|
| **12yh 18fed Medi 2025:** | **Dyddiad Cau** |
| **Dechrau Hydref 2025:** | **Penodi Ymgeisydd Llwyddiannus** |
| **Wythnos yn cychwyn 14eg Hydref 2025:** | **Cyfarfod cyn-gychwyn gyda staff Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE** |
| **Mawrth 31ain 2026:** | **Cynnwys ar-lein wedi'i gwblhau** |
| **Ebrill 2026:** | **Rhaglen Hyfforddi Gwirfoddolwyr yn dechrau** |
| **Hyd 30ain 2026:** | **Cwblhau'r contract a darparu ystadegau** |

**Rheolau tendro**

Ni fyddwn yn ystyried tendr unrhyw gwmni sy'n canfasio aelod o staff APCE yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran APCE, mewn perthynas â dyfarnu'r cytundeb hwn. Ar ben hynny, ni fyddwn yn ystyried tendr unrhyw gwmni sy'n:

i. Cytuno â chwmni arall i beidio â chyflwyno tendr neu gytuno ar swm ei dendr gyda chwmni arall ymlaen llaw;

ii. Yn cynnig, yn addo, neu'n cytuno - naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - i roi unrhyw fantais ariannol neu fantais arall i unrhyw berson fel cymhelliant neu wobr am wneud, ymatal rhag gwneud, neu fod wedi gwneud unrhyw beth mewn cysylltiad â'r tendr hwn.

**Mae APCE yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau.**

Byddwch yn datgan yr uchod trwy lofnodi'r ffurflen sydd ynghlwm a'i dychwelyd fel rhan o'r broses dendro.

Dylid cyflwyno tendrau drwy'r post neu mewn e-bost fel a ganlyn:

**Post**

Anfonwch i'r cyfeiriad isod mewn amlen ddienw, wedi'i selio:

**Tendr Hyfforddiant Gwirfoddoli ar gyfer Cofnodi Rhywogaethau Ymledol – Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE**
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,**
**Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol,**
**Penrhyndeudraeth,**
**Gwynedd,**
**LL48 6LF**

**E-bost**

Anfonwch dendrau at cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru gan ddefnyddio'r pennawd e-bost **Tendr Hyfforddiant Gwirfoddoli Cofnodi Rhywogaethau Ymledol – Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE**.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12yh ddydd Iau'r 18fed o Fedi 2025.**

Os oes gennych ddiddordeb mewn tendro am y gwaith hwn ac os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â'r Swyddog Cymorth Prosiect, Rhiannon Jones, ar rhiannon.jones@eryri.llyw.cymru neu ar 07887 452 469.

**<u>Datganiad – Ffurflen Ymateb</u>**

Rwyf wedi fy awdurdodi gan y Sefydliad Tendro [a chwmnïau, phartneriaid ac/neu isgontractwyr] i ddarparu'r wybodaeth a roddir yn y cynnig hwn. Rwy'n datgan, ar ddyddiad llofnodi'r datganiad hwn, fod y wybodaeth a roddir yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth, ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.

Mae gan y Cleient ein caniatâd i:

- gwblhau'r holl gamau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd;
- trosglwyddo'r wybodaeth a ddarparwyd i drydydd partïon (partneriaid prosiect) at ddibenion gwerthuso'r ymatebion.

Rwy'n cydnabod:

- ei bod yn drosedd cynnig unrhyw rodd neu ystyriaeth i weithiwr corff cyhoeddus fel gwobr neu gymhelliant mewn perthynas â dyfarnu contract, a bod gweithred o'r fath yn rhoi'r hawl i'r Cleient ddiarddel y Corff Tendro o'r broses dendro;
- y bydd unrhyw sefydlogi prisiau neu gyd-gynllunio mewn perthynas â'r gwaith yn caniatáu i'r Cleient ddiarddel y Corff Tendro o'r broses gaffael a gall arwain at drosedd.

Llofnod: ___________________________________

Enw: ______________________________________

Teitl Swydd: _______________________________

Cwmni: ____________________________________

Gwerth y cynnig: ___________________________

Dyddiad: __________________________________

**Nodyn: Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi (fel yn berthnasol) gan lofnodwr awdurdodedig ar ran y Corff Tendro (ac unrhyw gwmnïau cysylltiedig, phartneriaid neu isgontractwyr). Dychwelwch y ffurflen hon gyda'ch tendr.**